



# Etholiad Cyffredinol 2019

**Rhagfyr 2019**

Mae canlyniadau'r etholiad cyffredinol i mewn ac mae Boris Johnson a'r Blaid Geidwadol wedi ennill gyda mwyafrif helaeth.

Mae'r canlyniadau llawn fel a ganlyn:

- Y Blaid Geidwadol – 364 (+47 o 2017)
- Y Blaid Lafur – 203 (-59)
- SNP – 48 (+13)
- Democratiaid Rhyddfrydol – 11 (-1)
- DUP – 8 (-2)
- Eraill – 15 (+2)

Yng Nghymru:

- Y Blaid Lafur – 22 (-6)
- Y Blaid Geidwadol – 14 (+6)
- Democratiaid Rhyddfrydol – 0 (-1)
- Plaid Cymru – 4 (+/-0)

Felly beth mae hyn yn ei olygu i gymdeithasau tai yng Nghymru?

Mae tai yn faes sydd wedi ei ddatganoli yng Nghymru ond mae San Steffan yn cadw'r pwerau yn ymwneud â pholisï llesiant a thrafodaethau am adael yr Undeb Ewropeaidd.



Bydd Brexit yn awr yn flaenoriaeth i Johnson. Dywedodd y Prif Weinidog fod hyn yn golygu dim mwy o ailnegodi a dim mwy o refferenda. Bydd y Ceidwadwyr yn anelu i roi cytundeb drwy'r Senedd er mwyn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn gynnar y flwyddyn nesaf. Gweler ein papur ar Paratoi am Brexit heb Gytundeb [yma](#).

Mae maniffesto'r Ceidwadwyr yn ymrwmo i gael bargaen deg i Gymru gyda buddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith a diwydiant.

Yn ogystal â rhoi blaenoriaeth i Brexit, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr heddlu a mewnfudo, mae'r maniffesto hefyd yn ymrwmo i gyrraedd carbon net sero erbyn 2050 gyda buddsoddiad mewn datrysiadau ynni glân a seilwaith gwyrdd i ostwng allyriadau carbon a llygredd.

## Am beth ydyn ni'n galw?

Mae CHC yn galw ar Lywodraeth newydd y Deyrnas Unedig i:

- Sicrhau bod buddsoddiad mewn tai cymdeithasol yn parhau'n flaenoriaeth ar draws y Deyrnas Unedig i gyd
- Diwygio'r Credyd Cynhwysol
- Sicrhau fod Cymru'n cadw lefelau presennol o gyllid rhanbarthol ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

## Beth ydyn ni wedi wneud?

Yn ystod ymgyrch yr etholiad, bu CHC yn cyflwyno negeseuo polisi pwysig i gynulleidfaedd allweddol, gan safleoli cymdeithasau tai fel partner o ddewis.

Rydym wedi paratoi [blog](#) wythnosol arbennig ar yr etholiad i ddiweddarau aelodau ar yr hyn a ddigwyddodd yn ystod yr ymgyrch.

Rydym hefyd wedi datblygu llythyrau templed i gefnogi'r sector i gysylltu gydag ymgeiswyr seneddol a chyflwyno neges gyson i ddarpar Aelodau Seneddol. Mae'r templedi hyn ar gael [yma](#).



# Sut y gallaf gymryd rhan?

## Cysylltu â'ch Aelod Seneddol

Rydym yn annog aelodau i gysylltu gyda'u Haelodau Seneddol newydd.

Y ffordd fwyaf dylanwadol i wneud hyn yw cwrdd wyneb-yn-wyneb. Gallai hyn fod yn rhywbeth fel cwrdd am goffi a sgwrs neu wahodd eich Aelod Seneddol i ymweld â phrosiect, gwasanaeth neu ddatblygiad newydd. Gallech eu cyflwyno i rywun y mae diwygio llesiant wedi effeithio arnynt neu ddangos iddynt sut yr ydych yn gweithio i wella bywyd eu hetholwyr.

Rydym wedi llunio [llythyr templed](#) i ddechrau ymgysylltu. Mae hyn yn gyfle gwych i feithrin perthynas gadarnhaol gydag Aelodau Seneddol newydd. Mae'n well peidio cymryd yn ganiataol eu bod yn gwybod am eich cymdeithas neu fod ganddynt wybodaeth fanwl ar yr hyn y galwn amdano.

Mae manylion eich Aelod Seneddol newydd [yma](#).

## Unrhyw gwestiynau?

Os ydych angen mwy o wybodaeth cysylltwch â Bethan Proctor, Rheolydd Polisi a Materion Allanol CHC, ar [Bethan-Proctor@chcymru.org.uk](mailto:Bethan-Proctor@chcymru.org.uk) neu drwy ffonio 029 2067 4800.